# CiLCA: cyflwyniad i gynghorwyr

## Pam ddylai swyddogion cynghorau lleol wneud CiLCA?

Mae CiLCA yn helpu swyddogion eich cyngor i ddod yn fwy ymwybodol o'r gyfraith a gweithdrefnau ar gyfer cynghorau lleol ac mae'n eu helpu i weithio gyda'r system gynllunio. Mae'n gwirio y gallant reoli gweithgareddau'r cyngor, ei gyllideb ac ymgysylltu â'r gymuned. Yn Lloegr, mae clerc a chanddo/i gymhwyster CiLCA yn helpu'r cyngor i ennill grym cymhwyster cyffredinol a Gwobr Ansawdd neu Ansawdd Aur.

## Beth yw CiLCA?

Mae CiLCA fel Safon Uwch; mae'n gymhwyster Lefel 3 sydd wedi'i deilwra ar gyfer swyddogion cynghorau lleol.

## Pwy all wneud CiLCA?

Gall unrhyw swyddog sydd angen gwybod sut mae cynghorau lleol yn gweithio wneud CiLCA.

## Sut mae CiLCA yn gweithio?

Er mwyn paratoi ar gyfer CiLCA, mae swyddog yn cael hyfforddiant. Mae hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar swyddogion ac arweiniad ar gwblhau'r tasgau i'w hasesu. Mae'r swyddog sy'n gwneud CiLCA yn paratoi portffolio o waith ar gyfer 30 o weithgareddau. Mae rhai tasgau yn cynnwys ysgrifennu esboniad, tra bod eraill yn gofyn am nodiadau i fynd gyda dogfennau'r cyngor. Y nod yw dangos fod y swyddog yn gwybod, yn deall ac yn gallu gwneud yr hyn a ddisgwylir ar Lefel 3. Mae pum uned yn cwmpasu'r pum thema:

- Rolau Craidd mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol
- Y Gyfraith & Gweithdrefnau ar gyfer Cynghorau Lleol
- Cyllid ar gyfer Cynghorau Lleol
- Rheolaeth ar gyfer Cynghorau Lleol
- Ymgysylltu â'r Gymuned

## Faint o amser mae CiLCA yn gymryd?

Gallai gymryd rhwng chwe mis a blwyddyn i gwblhau CiLCA. Ar gyfartaledd, efallai y gallai swyddog gwblhau un dasg yr wythnos.

## Sut all y cyngor helpu?

Fel gweithiwr, dylai'r cyngor wneud popeth a all i gefnogi rhywun sydd eisiau gwneud CiLCA.

- Gofalwch fod y swyddog eisiau ei wneud o ddifrif. Mae cymhelliant uchel yn allwedd i lwyddo.
- Talwch yr holl gostau. Caiff y buddsoddiad ei wobrwyo o'r cychwyn cyntaf.
- Rheolwch y llwyth gwaith. Mae gormod o alw ar y myfyriwr yn gallu ei rwystro/rhwystro rhag llwyddo.
- Darparwch a diogelwch amser astudio os yw oriau'r gweithiwr yn caniatáu hynny. Mae'n werth atal oedi.
- Dangoswch ddiddordeb yn y cynnydd. Mae hyn yn calonogi ac mae'n dangos cefnogaeth.
- Gwrandewch ar gyngor eich swyddog a hyfforddwyd. Y nod yw gwella perfformiad y cyngor.

## Faint mae'n gostio?

Mae taliadau ar gyfer hyfforddiant yn dibynnu ar eich darparydd hyfforddiant ond y tâl ar gyfer gwneud CiLCA yw £250.

## Beth nesaf ar ôl CiLCA?

Mae CiLCA yn gosod sylfaen o wybodaeth, ond er mwyn deall gwaith cyngor lleol yn fanylach, gall swyddogion cynghorau lleol adeiladu ar CiLCA ac astudio ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 mewn Llywodraethiant Cymunedol: Rheolaeth Cynghorau Lleol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth ar bob math o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer swyddogion cynghorau lleol, ewch i:

**www.slcc.co.uk**

- a gwasgwch ar Datblygu Proffesiynol

**www.nalc,gov.uk**

- a gwasgwch ar Ein Gwaith/Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol

Gwefan eich cymdeithas cynghorau lleol sirol neu Un Llais Cymru

CiLCA NALC SLCC Society of Local Council Clerks Professional · Supportive · Innovative AptEd Un Llais Cymru One Voice Wales

# CiLCA: cyflwyniad i swyddogion cynghorau

## Pam ddylech chi wneud CiLCA?
Mae CiLCA yn eich helpu i ddod yn fwy ymwybodol o'r gyfraith a gweithdrefnau ar gyfer cynghorau lleol ac mae'n eich helpu i weithio gyda'r system gynllunio. Mae'n gwirio y gallwch reoli gweithgareddau'r cyngor, ei gyllideb ac ymgysylltu â'r gymuned. Yn Lloegr, mae clerc a chanddo/i gymhwyster CiLCA yn helpu'r cyngor i ennill grym cymhwyster cyffredinol a Gwobr Ansawdd neu Ansawdd Aur. Mae CiLCA yn helpu eich cyngor i gyflawni safonau arfer da ac mae'n adeiladu enw da cynghorau lleol mewn byd sy'n newid yn gyflym.

## Beth yw CiLCA?
Mae CiLCA fel Safon Uwch; mae'n gymhwyster Lefel 3 sydd wedi'i deilwra ar gyfer swyddogion cynghorau lleol.

## Pwy all wneud CiLCA?
Gall unrhyw swyddog sydd angen gwybod sut mae cynghorau lleol yn gweithio wneud CiLCA.

## Sut mae CiLCA yn gweithio?
Er mwyn paratoi ar gyfer CiLCA, byddwch yn cael hyfforddiant a reolir gan hyfforddwyr wedi'u hyfforddi. Mae hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac arweiniad ar gwblhau'r tasgau i'w hasesu. Byddwch yn paratoi portffolio o waith ar gyfer 30 o weithgareddau. Mae rhai tasgau yn cynnwys ysgrifennu esboniad, tra bod eraill yn gofyn am nodiadau i fynd gyda dogfennau'r cyngor. Y nod yw dangos eich bod yn gwybod, yn deall ac yn gallu gwneud yr hyn a ddisgwylir ar Lefel 3. Mae pum uned yn cwmpasu'r pum thema:

- Rolau Craidd mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol
- Y Gyfraith & Gweithdrefnau ar gyfer Cynghorau Lleol
- Cyllid ar gyfer Cynghorau Lleol
- Rheolaeth ar gyfer Cynghorau Lleol
- Ymgysylltu â'r Gymuned

## Faint o amser mae CiLCA yn gymryd?
Gallai gymryd rhwng chwe mis a blwyddyn i gwblhau CiLCA. Ar gyfartaledd, efallai y gallech gwblhau un dasg yr wythnos.

## Sut all y cyngor helpu?
Fel gweithiwr, dylai'r cyngor eich cefnogi; awgrymir ei fod yn

- Talu'r holl gostau. Caiff y buddsoddiad ei wobrwyo o'r cychwyn cyntaf.
- Rheoli eich llwyth gwaith. Mae gormod o alw yn gallu eich rhwystro rhag llwyddo.
- Darparu a diogelu amser astudio os yw eich oriau yn caniatáu hynny. Mae'n werth atal oedi.
- Dangos diddordeb yn eich cynnydd. Mae hyn yn calonogi ac mae'n dangos cefnogaeth.
- Gwrando ar eich cyngor. Y nod yw gwella perfformiad y cyngor.

## Faint mae'n gostio?
Mae taliadau ar gyfer hyfforddiant yn dibynnu ar eich darparydd hyfforddiant ond y tâl ar gyfer gwneud CiLCA yw £250.

## Sut i gael gwybod mwy?
Er mwyn cael mwy o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer CiLCA ewch i www.slcc.co.uk a gwasgwch ar Datblygu Proffesiynol. Cysylltwch â'ch darparydd hyfforddiant lleol i gael manylion am y cwrs CiLCA nesaf.

## Beth nesaf ar ôl CiLCA?
Mae CiLCA yn gosod sylfaen o wybodaeth, ond er mwyn deall gwaith cyngor lleol yn fanylach, gallwch adeiladu ar CiLCA ac astudio ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 mewn Llywodraethiant Cymunedol: Rheolaeth Cynghorau Lleol.

CiLCA NALC SLCC Society of Local Council Clerks Professional · Supportive · Innovative AptEd Un Llais Cymru One Voice Wales